# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Cofnodion EDT(2) 02-05

Dyddiad y cyfarfod: 19 Ionawr 2005
Amser y cyfarfod: 9.00 - 12.30
Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

### Yn bresennol

| Aelod y Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro |
| Alun Cairns | De Orllewin Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Andrew Davies (Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | De Orllewin Cymru |
| Lisa Francis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |

### Swyddogion

| Enw | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth |
| Emyr Roberts | Prif Weithredwr, WEFO |
| Caroline Turner | WEFO |

| | |
|---|---|
| Janine Pepworth | Rheolwr Rhaglen Band Eang Cymru |
| Rob Halford | EPD |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | |
|---|---|
| Sian Wilkins | Clerc |
| Sarah Bartlett | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon

1.1 Yr oedd Huw Lewis yn dirprwyo ar ran Lynne Neagle a oedd wedi anfon ei hymddiheuriadau.

1.2 Dywedodd y Cadeirydd fod newidiadau wedi cael eu cynnig yn aelodaeth y Pwyllgor ac na fyddai Christine Chapman yn aelod mwyach o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn dymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd fel Dirprwy Weinidog a diolchodd iddi am ei holl waith caled ar y Pwyllgor dros y 4 blynedd ddiwethaf.

## Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Papur: EDT(2) 02-05 (p1)

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei adroddiad llafar ar y newyddion diweddaraf, sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.

2.2 Cyfeiriodd Aelod at fater oedd yn dal i fod ar y gweill, sef ei geisiadau dro ar ôl tro am wybodaeth ynglyn â'r holl gyfathrebu a fu rhwng y WDA a'r Gweinidog a'r Swyddogion mewn perthynas â phenodi Prif Weithredwr y WDA. Dywedodd yr Aelod bod y Gweinidog wedi dewis trin ei gais gwreiddiol, a wnaed yn y Pwyllgor, fel cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac o ganlyniad bu oedi cyn iddo dderbyn y wybodaeth. Gwnaeth ei gais gwreiddiol am yr wybodaeth, yn ysgrifenedig, trwy Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad ym mis Hydref. Ar ôl hynny bu Clerc y Pwyllgor yn dilyn i fyny cais a wnaed ganddo ar lafar yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar 10 Tachwedd. Yr oedd newydd dderbyn yr wybodaeth fore y cyfarfod hwn a gofynnodd i'r Cadeirydd am eglurhad ynglyn â'r mater.

2.3 Cytunodd y Cadeirydd y byddai’n gofyn i Banel y Cadeiryddion a’r Llywydd am eglurhad ynglyn â’r mater hwn o ran effaith Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar geisiadau am wybodaeth a wneir mewn Pwyllgorau [Gweithredu: Cadeirydd]

2.4 Cyfeiriodd Aelod at yr ymateb yn adroddiad y Gweinidog i gais blaenorol am fanylion ynglyn â chynnig y WDA i danysgrifennu rhentu fel dull newydd o ariannu. Cytunodd y gweinidog i ddarparu rhagor o fanylion yn ei adroddiad nesaf. [Gweithredu: Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

2.5 Cyfeiriwyd at bolisi y dywedir ei fod yn bodoli yn Iwerddon, sef mynd ati’n weithredol i recriwtio pobl gwyddonwyr proffesiynol i weithio ym maes diwydiant. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn rhannu cyfrifoldeb yn y maes hwn gyda’r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes a Phrif Weinidog Cymru. Eu nod yw cynyddu technoleg gwyddoniaeth ac adeiladu ar y sectorau presennol a’r sefydliadau addysg uwch a chydweithio gyda chwmnïau byd eang fel IBM a sefydlodd y Sefydliad Gwyddoniaeth Bywyd (ILS) yn ddiweddar. Yr oedd hwn yn gam allweddol at gyflawni’r argymhellion a nodwyd yn yr Adroddiad Nexus. Dywedodd ei fod yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn ganolog i adolygiad polisi gwyddoniaeth arfaethedig y Pwyllgor.

2.6 Mewn perthynas â chyflwyno’r Gyfarwyddeb Batrïau a Chronaduron arfaethedig dywedodd y Gweinidog ei fod yn parhau i lobïo ar ran y cwmnïau yng Nghymru a fyddai’n cael eu heffeithio. Bydd y cyfnod eithrio 4 blynedd y cytunwyd arno ar gyfer batrïau Cadmium sy’n cael eu defnyddio mewn offer pwer, yn rhoi amser i edrych ar ffyrdd o leddfu’r sefyllfa. Dywedodd y gallai fod yn bosib datblygu proses newydd i wrthbwyso effaith y gyfarwyddeb, er enghraifft menter ailgylchu batrïau, fel y gwnaethpwyd gyda’r gwaith ailgylchu ceir a sefydlwyd yng Nghasnewydd o ganlyniad i’r Gyfarwyddeb Diwedd Bywyd Cerbyd. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwysig i’r Pwyllgor fod yn ymwybodol o’r ffaith nad oedd Cadmium mewn batrïau ddim ond yn gyfrifol am 1% o’r llygredd Cadmium a bod y gwrtaith a ddefnyddir mewn ffermio yn gyfrifol am oddeutu 30 - 40%. Cytunodd y Gweinidog i godi’r mater hwn gyda’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ac i adrodd yn ôl i’r Pwyllgor. [Gweithredu: Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

2.7 Mynegodd yr aelodau eu pryderon ynglyn â’r swyddi a gollwyd yn ddiweddar yng Nghanolbarth Cymru, yn arbennig yn y Drenewydd lle bu 4 cyhoeddiad mawr ynglyn â cholli swyddi dros y 4 mis diwethaf. Yr oedd llawer o’r swyddi hyn yn y sector gweithgynhyrchu a gofynnodd yr Aelodau i’r Gweinidog edrych ar bolisïau creadigol er mwyn lleihau effaith colli’r swyddi hyn ar yr ardal. Mewn ymateb dywedodd y Gweinidog ei fod yn gofidio am y swyddi a gollwyd yng Nghanolbarth Cymru. Nid oedd yn derbyn y ddadl bod y diwydiant gweithgynhyrchu yn dirywio, ond ei fod yn hytrach yn newid er mwyn cynnwys swyddi gyda gwerth ychwanegol uwch. Dywedodd bod polisïau wedi cael eu sefydlu i ymdrin â’r materion hyn, er enghraifft y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth sy’n canolbwyntio ar sgiliau a hyfforddiant. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn gobeithio cynnal cyfarfod o’r Pwyllgor yng Nghanolbarth Cymru y tymor nesaf i drafod y pwnc yn fwy manwl.

2.8 Wrth ymateb i gwestiwn penodol rhoddodd y swyddogion amlinelliad o’r Cynllun WASP (Welsh

Application Service Provider) a oedd wedi derbyn cyllid o’r ail gylch ceisiadau o dan ERDF a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Bu’r cynllun yn llwyddiannus i helpu Busnesau Bach a Chanolig ond byddai’n anodd ei ddyblygu y tu allan i ardal Amcan 1.

2.9 Mewn ymateb i gwestiwn penodol ynglyn â’r strategaeth Diwydiannau Creadigol cytunodd y Gweinidog i ddarparu gwybodaeth bellach ynglyn â pha ganran o incwm cwmnïau cyfryngau Cymru sy’n dod o Eiddo Rhyngwladol. [Gweithredu: Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

2.10 Amlinellodd y Gweinidog y ffigurau cyflogaeth diweddaraf a ryddhawyd y bore hwnnw am 9.30. Nid oedd yr Aelodau wedi gweld y ffigurau ac felly nid oeddent yn gallu eu trafod yn fanwl. Hefyd yr oeddent yn synnu nad oedd y Gweinidog wedi gwneud unrhyw gyfeiriad yn ei adroddiad at y ffigurau GVA a ryddhawyd ym mis Rhagfyr.

2.11 Mewn perthynas ag ymgyrch marchnata ddiweddaraf Bwrdd Croeso Cymru, dywedodd y Gweinidog bod yr ymgyrch newydd yn ceisio adeiladu ar lwyddiant yr ymgyrch 'Big Country' a oedd wedi cynyddu gwariant ymwelwyr lawer mwy yng Nghymru nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Dywedodd y Gweinidog bod yr ymgyrch newydd yn arloesol ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol iawn o Gymru.

2.12 Yr oedd yr Aelodau yn bryderus ynglyn â chau’r A470 yn ddiweddar yn dilyn y tirlithriad yn Ninas Mawddwy a gofynnwyd pryd y byddai’r ffordd wedi ei hagor yn llwyr. Yr oeddent hefyd yn bryderus a oedd cynlluniau hirdymor i fuddsoddi yn yr A470. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion i’r Aelodau ynglyn â’r sefyllfa ddiweddaraf. [Gweithredu: Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

2.13 Cyfeiriodd y Gweinidog at y darn newydd o’r A470 a oedd wedi ei agor yn ddiweddar. Dywedodd ei fod yn waith peirianyddol mawr a gobeithio y byddai’n gwrthsefyll rhai o broblemau amgylcheddol y ffordd. Dywedodd y swyddogion bod Asiantaeth yr Amgylchedd wrthi’n asesu effaith y tywydd drwg ar y strwythur trafnidiaeth a bod uwchraddio’r A470 yn flaenoriaeth. Mae 24 achos unigol o uwchraddio ar y gweill ac mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal arnynt ar hyn o bryd.

2.14 Mewn perthynas â’r Band Eang, yr oedd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn falch o lansio Strategaeth 05-07 Band Eang Cymru. Croesawodd un o’r Aelodau y newyddion diweddar bod BT wedi cyflwyno Band Eang i nifer o gyfnewidfeydd newydd ar draws Cymru ond nid oedd yn siwr pa gynlluniau a oedd gan y Gweinidog i gefnogi cyfnewidfeydd na fyddai grymoedd arferol y farchnad yn ddigonol ar eu cyfer. Dywedodd y swyddogion eu bod yn gweithio gyda’r Comisiwn Ewropeaidd i ystyried sut i ffurfio cynllun addas a fyddai’n darparu Band Eang cenhedlaeth gyntaf i unrhyw un yng Nghymru sydd ei eisiau. Yr oeddent ar fin lansio cynllun broceriaeth a fyddai’n cyflenwi’r galw am Fand Eang cenhedlaeth gyntaf ac ail genhedlaeth yng Nghymru. Byddai hyn yn caniatáu iddynt ddangos i’r Comisiwn Ewropeaidd a fyddai’r farchnad yn cefnogi’r galw hwnnw neu beidio.

## Eitem 3: Adroddiad Chwarterol y Cronfeydd Strwythurol

## Papur: EDT(2) 02-05 (p2)

3.1 Talwyd teyrnged gan y Cadeirydd i'r gwaith a wnaed gan Christine Chapman fel Cadeirydd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen Amcan 1 gan na fyddai'n gweithredu yn y rôl honno mwyach. Ychwanegodd y Gweinidog a'r swyddogion eu diolch am y gwaith a wnaed ganddi yn ystod ei chyfnod fel Cadeirydd. Hefyd dywedwyd bod Dr Caroline Turner yn symud i swydd newydd y tu allan i WEFO a diolchodd y Gweinidog iddi am ei chyfraniad gwerthfawr o redeg y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol.

3.2 Wrth gyflwyno'r papur dywedodd y Gweinidog bod 2004 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus i'r rhaglenni, a'u bod wedi cyflawni'r targedau N+2 ar gyfer y flwyddyn a thrwy hynny osgoi colli ymrwymiad llwyddo i gyflawni'r adolygiadau tymor canol yn llwyddiannus, gan dderbyn Penderfyniadau Ffurfiol oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd yn cytuno i'r newidiadau arfaethedig.

3.3 Rhoddodd Christine Chapman adroddiad am ddau gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro'r Rhaglen Amcan 1. Dywedodd bod Cymru wedi derbyn llawer o werthusiadau cadarnhaol o bob rhan o'r Undeb Ewropeaidd un rhan o dair o'r ffordd i mewn i'r rhaglen. Yn arbennig tynnodd sylw at y Gronfa Berfformiad a ddyfarnwyd i Gymru ym mis Mawrth 2004. Amlinellodd rai o'r newidiadau a wnaed yn y Pwyllgor Monitro'r Rhaglen, yn fwyaf arbennig sefydlu'r Is-bwyllgor Perfformiad newydd, a dywedodd bod enghreifftiau amlwg o lwyddiant y rhaglen Amcan 1 yn dechrau cael eu gweld ar hyd a lled Cymru. Dywedodd bod rhaid gwneud rhagor o waith ynglyn â dosbarthu gofodol yn ogystal â sicrhau bod cyfathrebu clir ac effeithiol ar draws yr ystod o gyrff a oedd yn ymwneud â chyflawni cronfeydd strwythurol. Gorffennodd trwy ddiolch i staff WEFO ac aelodau o'r Pwyllgor Rheoli'r Rhaglen am eu gweledigaeth a'u hymroddiad llwyr.

3.4 Yn y drafodaeth rhoddodd un Aelod fwy o fanylion ynglyn â dosbarthu gofodol. Yr oedd yr Aelod yn bryderus bod gwariant o'r rhaglenni cronfeydd strwythurol yn rhy isel yn arbennig yng nghoridor Blaenau'r Cymoedd. Yr oedd y diffyg gwario ym Mlaenoriaethau 3 a 4 yn dangos nad oedd manteisio digonol ar y rhaglenni a beirniadodd rôl asiantaethau megis y WDA, gan ddweud nad oeddent wedi ymgysylltu'n llwyddiannus gyda'r cymunedau na'r Awdurdodau Lleol yn yr ardal hon. Yr oedd hyn yn hollol wahanol i'r sefyllfa gyda Blaenoriaeth 5, lle'r oedd yr asiantaethau perthnasol wedi sefydlu dull strategol clir o weithredu. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn wir bod rhai o'r rhaglenni wedi mynd yn dameidiog braidd mewn rhai rhannau o Gymru. Cyfeiriodd at y gwaith yr oedd wedi ei ddechrau gyda menter Blaenau'r Cymoedd, a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol megis y WDA ac Awdurdodau Lleol. Byddai'n rhoi diweddariad i'r Pwyllgor gyda hyn ynglyn â'r strategaeth Blaenau'r Cymoedd. [Gweithredu: Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

3.5 Eglurodd y swyddogion y cafwyd anhawster symud prosiectau yn eu blaen yn yr ardal hon, yn enwedig o dan Blaenoriaeth 3. Yr oedd y targedu gofodol yn rhai o'r mesurau Amcan 1 yn ei gwneud hi'n anodd cyfateb prosiectau ag ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Hefyd roedd angen adeiladu rhagor o allu ar gyfer prosiectau datblygu cymunedol. Serch hynny yr oedd un prosiect mawr o 2004 a fyddai'n

cael effaith sylweddol ar ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Yr oedd llawer o brosiectau eraill ar y gweill ac yr oedd y sefyllfa'n edrych yn fwy cadarnhaol. Hefyd yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cyllid sylweddol i gefnogi cynlluniau gweithredu Cymunedau'n Gyntaf. Cytunodd y Gweinidog i roi'r materion a godwyd ger bron y WDA ac i drafod materion yn ymwneud â menter gymdeithasol gyda'r Gweinidog perthnasol. [Gweithredu: Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

3.6 Mewn ymateb i gwestiwn penodol dywedodd y swyddogion eu bod ar hyn o bryd yn adolygu'r amserlen ar gyfer gwneud ceisiadau o dan y prosiect. Eu bwriad yw gosod y gweithdrefnau newydd yn eu lle erbyn diwedd mis Mawrth.

3.7 Mynegwyd pryder bod Blaenoriaeth 1 Mesur 2, a oedd yn hybu entrepreneuriaeth a chyfraddau esgor Busnesau Bach a Chanolig yn bell o fod yn cael ei defnyddio'n llawn. Eglurodd y swyddogion y byddai mesurau 2 a 3, sy'n debyg iawn i'w gilydd, yn cael eu cyfuno ar ôl yr adolygiad canol tymor. Byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad nesaf i'r Pwyllgor. Ar hyn o bryd mae Mesur 3 wedi ei or-ymrwymo a byddai'r mesur cyfunol newydd yn cynnwys cylch ceisiadau. Hefyd atgoffwyd yr Aelodau gan y Swyddogion bod y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth wedi cael ei ariannu trwy'r mesur hwn. Er bod gan y Cynllun Gweithredu rai mesurau tymor byr, yn ei hanfod y mae'n strategaeth hir dymor a fydd yn rhoi sylw i newid agwedd a newidiadau diwylliannol.

3.8 Dywedodd un o'r Aelodau ei fod yn bryderus am y lefelau gwariant o dan raglen (Trawsnewidiol) Amcan 2 a'r risg o golli ymrwymiad i'r rhaglen. Gofynnodd faint o wariant a wnaed o dan y rheolau ôl-weithredu. Dywedodd y swyddogion y bu'n anodd cadw at y lefelau gwariant ond eu bod yn hyderus na fyddai'n rhaid iddynt ddefnyddio ôl-weithredu eto. Cytunodd y swyddogion i ddarparu cymhariaeth o brosiectau ôl-weithredu 2003 yn erbyn y prosiectau ar gyfer 2004, gan roi manylion am natur y prosiect a gwerth y prosiectau diweddaraf. [Gweithredu: Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

3.9 Cyfeiriodd Aelod at y 37,500 o swyddi newydd y dywedodd y Gweinidog eu bod wedi cael eu creu o dan y rhaglen Amcan 1. Cytunodd y swyddogion i ddarparu rhagor o wybodaeth ynglyn â faint o'r swyddi hyn oedd yn amser llawn/rhan amser, y cydbwysedd rhyw, ym mha sectorau y crëwyd y swyddi a faint ohonynt oedd yn cynnwys hyfforddiant fel rhan o'r swydd. [Gweithredu: Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

3.10 Mynegwyd pryder am y lefelau gwariant isel yn Amcan 1 Blaenoriaeth 3 Mesurau 1 a 4. Yr oedd y mesurau hyn yn effeithio ar fusnesau yn yr economi cymdeithasol ac mewn meysydd lle'r oedd gallu (capacity) yn ystyriaeth. Yr oedd y ffigurau fel pe baent yn dangos nad oedd yr ystyriaethau hyn wedi cael sylw hyd yma. Dywedodd y swyddogion nad oedd targedu gofodol wedi helpu i reoli'r mesurau hyn a'u bod felly wedi cael eu diddymu. Dylai hynny fod yn help i fentrau cymdeithasol. Mae llawer o'r prosiectau wedi cael eu blocio ar hyn o bryd gan fod rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd yn aneglur yn y maes hwn a bod angen rhoi sylw i nifer o ystyriaethau Cymorth y Wladwriaeth.

## Eitem 4: Adolygiad Polisi – Drafft Terfynol yr Adroddiad

# Anweithgarwch Economaidd

## Papur: EDT(2) 02-05 (p3)

4.1 Cytunodd yr aelodau y dylid gwneud nifer fechan o newidiadau i’r drafft. Cytunodd y Cadeirydd i ddosbarthu’r drafft terfynol i’r Aelodau trwy e-bost er mwyn cael eu sylwadau.

# Eitem 5: Adroddiad am gynnydd Cymru’n Ennill

## Papur: EDT(2) 02-05 (p4)

5.1 Cyflwynodd y Gweinidog bapur a oedd yn dangos bod Cymru’n Ennill wedi gwneud cynnydd yn erbyn ei dargedau penodol. Dywedodd y Gweinidog ei fod ar y ffordd i gwrdd â phob targed ond un. Yr oedd rhai o’r Aelodau yn anghytuno gyda’r farn hon gan ddweud nad oedd data ar gael ar gyfer tri maes arall.

5.2 Yr oedd rhai o’r Aelodau yn synnu nad oedd y Gweinidog wedi cyfeirio o gwbl at y cynnydd a wnaed wrth gyflawni 90% o’r GVA sef y targed allweddol yr oedd Cymru’n Ennill wedi ei gynllunio i’w gyflawni. Yr oeddynt yn bryderus bod targedau unigol Cymru’n Ennill yn cael eu cyflawni ond nid oedd yn ymddangos eu bod yn cael yr effaith a geisiwyd ar GVA.

5.3 Dywedodd y Gweinidog nad oedd cyflawni 90% o’r GVA perthynol yn ‘darged’ yn Cymru’n Ennill, ond yn hytrach yn ddymuniad. Fodd bynnag yr oedd yn derbyn y gellid disgwyl mwy o gynnydd o ystyried y cynnydd a wnaed gyda’r rhan fwyaf o’r dangosyddion allweddol, hynny yw: diweithdra ILO is; cyflogau uwch a GVA y pen uwch. Yr oedd y swyddogion wedi gofyn i’r Swyddfa Ystadegau Gwladol adolygu’r anghysondebau a ymddangosai yn y dangosyddion allweddol hyn. Byddent yn adrodd y canlyniadau hyn i’r Aelodau yn y man. [Gweithredu: Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

5.4 Gofynnodd yr Aelodau am adroddiad llawnach am ddadansoddiad y ffigurau GVA diweddar yn adroddiad nesaf y Gweinidog a chytunodd y Cadeirydd i ganiatáu digon o amser i gael trafodaeth fwy manwl. [Gweithredu: Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth/ Cadeirydd]

5.5 Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn â swyddfeydd tramor, cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd yn mynd ar ôl y swyddfa a grybwyllwyd yn Hong Kong ar hyn o bryd oherwydd effaith debygol y broses gyfuno. Cadarnhaodd bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn chwilio am adeilad newydd i’r swyddfa ym Mrwsel.

5.6 Tynnodd yr Aelodau sylw at rai o’r ffigurau GVA lleol isel iawn yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog bod GVA ar y lefel ddaearyddol isaf yn ddangosydd amrwd iawn. Yr oedd pobl yn byw bywydau mwy cymhleth nag yn y gorffennol ac roedd hyn yn ei gwneud hi’n anodd gosod

dangosyddion cywir. Derbyniodd yr Aelodau bod ffigurau GVA ar lefel lleol yn llai dibynadwy ond awgrymwyd y dylid gwneud rhagor o waith i ganfod dangosyddion eraill, gwahanol. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth ynglyn â chynnydd yn y maes hwn. [Gweithredu: Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

5.7 Er ei bod cynyddu ffyniant economaidd yn faes cyfrifoldeb iddo, dywedodd y Gweinidog nad dyma'i unig gonsyrn. Y mae hefyd yn ymwneud â helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith. Y mae anweithgarwch economaidd wedi cael effaith ddifrifol ar GVA Cymru. Dywedodd bod Lywodraeth Cynulliad Cymru, y Pwyllgor hwn yn ei adolygiad polisi, a'r Bevan Foundation wedi cynnal llawer iawn o astudiaethau yn y maes hwn gan, ond yn awr mae angen gweithredu clir ynglyn â mentrau polisi. Dywedodd bod nifer y swyddi sy'n cael eu creu yng Nghymru ar hyn o bryd yn debyg i'r nifer sy'n cael eu creu yng ngweddill y Deyrnas Unedig, a chytunodd i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Aelodau. [Gweithredu: Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

5.7 Gofynnodd un o'r Aelodau am adroddiad ynglyn â chynnydd gyda Chynllun Ymateb Corus a gofynnodd a lwyddwyd i oresgyn y broblem o wariant isel ar TGCh a'r rhaglenni Rhwydwaith Dysgu. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn yn egluro'r sefyllfa. [Gweithredu: Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

5.8 Mewn ymateb i gais am dabl cynghrair yn dangos y Band Eang sy'n debygol o fod ar gael dywedodd y Gweinidog ei bod hi'n anodd eu darparu gan na fyddai llawer o ddarparwyr gwasanaeth y rhyngrwyd yn rhyddhau gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol. Fodd bynnag cytunodd i edrych ar y data a oedd ar gael ac i roi adroddiad pellach i'r Pwyllgor. [Gweithredu: Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

### Eitem 6: EDT: Rhaglen Is-ddeddfwriaeth

### Papur: EDT(2) 02-05 (p5)

6.1 Cytunodd y Pwyllgor i ymdrin â'r eitem hwn drwy e-bost

## Eitem 7: Deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd

### Papur: EDT(2) 02-05 (p6)

7.1 Cytunodd y Pwyllgor i ymdrin â'r mater hwn drwy e-bost.

## Eitem 8: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

### Papur: EDT2 16-04 Cofnodion y cyfarfod ar 1 Rhagfyr 2004

## Papur: EDT2 02-05 Camau sydd heb eu Gweithredu Hyd Yma

8.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.